Crist yn Gwenu – Mawrth 2011



Yng Nghastell Xavier, Navarre, Spain mae cerflun o Grist ar y Groes. Fe berthyn y cerflun i'r 13eg Ganrif. Un peth, ac un peth yn unig, sydd yn nodedig am y cerflun – mae Crist fel petai'n gwenu! Mae'r wên honno'n codi cant a mil o gwestiynau diwinyddol!

A yw'r portread hwn o Grist yn gwenu wrth ddioddef a marw yn bychanu anferthedd ei aberth trosom – "angau drud" Robert ap Gwilym Ddu? A yw'r portread hwn o Grist yn gwenu wrth ddioddef a marw yn bychanu anferthedd ein pechod? Dioddefodd Iesu trosom ar y groes. Credwn hynny, ond pam? ***Beth ddywed Calfaria wrthym heddiw?***

Pam bu Iesu farw? Bu farw trosom - bu'n aberth trosom. Bu farw mewn ufudd-dod llwyr i ewyllys ei Dad. Fel canlyniad i'w ufudd-dod, maddeuwyd ein pechodau. Nid oes iachawdwriaeth i'r hil ddynol ond trwy Grist a'i farw. Diolchwn iddo, ein Duw a'n Gwaredwr, a dymunwn rannu Newyddion Da y Groes i bawb o bobl y byd, gan eu rhyddhau yn enw Crist rhag pob math o gaethiwed a chreulondeb, ac felly gweithio i sefydlu Teyrnas Dduw ar y ddaear.

Crist a hwnnw wedi ei groeshoelio yw arwr mawr y dehongliad hwn o'n ffydd. Byddwn ofalus! Bu ac mae'r dehongliad hwn o'r Efengyl yn medru bod yn niweidiol i'r Cristion ac i Gristnogaeth? Mae'r dehongliad hwn yn canolbwyntio nid ar Dduw, ond ar bechod a dioddefaint. Pwysleisir marwolaeth nid bywyd, pechod gwreiddiol nid daioni cynhenid, arswyd nid llawenydd; mewn gair, mae Cristnogaeth yn troi'n Groesogaeth. Yng nghanol hyn i gyd mae portread o Grist yn gwenu ar ei groes yn gabledd.

Dioddefodd Iesu trosom ar y groes. Pam? Bu Iesu farw i achub nid ryw gnewyllyn bach o bobl ond yn hytrach i amlygu hyd, lled, uchder a dyfnder Cariad Duw tuag at holl bobl y byd. Mae'r fath yma o Dduw yn fygythiad i bob awdurdod, crefyddol a seciwlar. 'Roedd pregethu fod Cariad Duw i bawb yn ddiwahân yn fwy na digon o reswm i awdurdodau gwleidyddol a chrefyddol y dydd gydweithio i roi taw ar y Saer Bregethwr unwaith ac am byth. 'Roedd ei gariad tuag at Dduw a phobl yn gryfach na'i awydd i ddiogelu ei hun. Ni fu farw er mwyn dioddef. Bu farw i'n rhyddhau.

Diolch i Dduw am y cerflunydd hwnnw a bortreadodd Crist - ar fwriad neu ar ddamwain – yn gwenu ar y groes. Mae'r cerflun hwn yn mynegi ffydd sydd a'i wreiddiau'n ddwfn yn y Testament Newydd. Mae'r Efengylwyr, bob un, yn adrodd Hanes y Croeshoelio yn gynnil, a hynny oherwydd nad y dioddef sydd yn cael y sylw ganddynt ond, yn hytrach, Buddugoliaeth Iesu.

Beth a ddywed Calfaria wrthym heddiw? Nid yw Crist eisiau ein maldod. Yr hyn mae Crist ei eisiau yw edifeirwch am ein ffolineb, a llawenydd yn ei fuddugoliaeth:

Beth yw'r tristwch sydd ar gerdded
drwy ei Eglwys dan y nef?
Nid oes gelyn ar y ddaear
sydd â grym i'w drechu Ef:
llawenychwn
yn ei fuddugoliaeth gref.

(Arthur Williams 1910-83; *C.Ff.*: 611)